The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk

Yr Holl Bartïon â Buddiant a Phartïon Statudol

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN070007

Dyddiad: 24 Ebrill 2023

Annwyl Syr/ Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 – adrannau 89 a 123; a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 – Rheoliad 6**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Penderfyniad Gweithdrefnol yn dilyn cais i wneud newidiadau i'r cais**

Ysgrifennwn atoch i roi gwybod i chi am y Penderfyniad Gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) yn dilyn y cais i newid a wnaed gan yr Ymgeisydd dyddiedig 27 Mawrth 2023 (cyfeirnodau [CR-001 i CR-126] yn Llyfrgell yr Archwiliad). Mae'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yma wedi cael eu cyhoeddi o dan y tab 'Dogfennau' ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Mae dogfen yr Ymgeisydd, sef 'Llythyr Eglurhaol i'r Cais i Newid' [CR-123], yn rhoi disgrifiad byr o bob un o'r newidiadau a gynigir, ond mae'n datgan *"Mae disgrifiad manwl o bob newid a'r cyfiawnhad iddo i'w weld yn y llythyr Hysbysiad…"* [AS-060]. Derbyniwyd yr ail ddogfen gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar 23 Mawrth 2023. Cynigir deunaw newid ac mae'r Ymgeisydd yn dweud y'u cynigir *"…yn bennaf i ymateb i ymgysylltiad â thirfeddianwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill."* Nododd yr Ymgeisydd hefyd ei fod yn bwriadu gweithredu newidiadau a amlygodd trwy waith dylunio ac ymgysylltu â chontractwyr posibl, ac mae'n datgan "*Mae'r newid yn cynnwys adleoli rhywfaint o waith arwyneb, a fyddai'n newid Terfynau'r Gorchymyn, ac a fyddai'n arwain at newidiadau i'r tir sy'n destun caffael gorfodol."*

Ni roddwyd digon o amser rhwng 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais i Newid' yr Ymgeisydd a'r Cais i Newid ei hun er mwyn i'r ExA ymateb i'r hysbysiad. Fodd bynnag, mae'r ExA yn nodi dull bwriadedig yr Ymgeisydd o ran cyflwyno'r newidiadau arfaethedig a'r ymgynghoriad arfaethedig ychwanegol y mae'n bwriadu ei gynnal os derbynnir y Cais i Newid. Nodwyd hefyd fod yr ymgynghoriad arfaethedig yn cyd-fynd yn fras â gofynion

Nodyn Cyngor 16: 'Sut i ofyn am gael gwneud newid a allai fod yn berthnasol'[1]. Mae'r ExA wedi adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd ac asesu cais yr Ymgeisydd yn unol â pharagraffau 109 i 115 Canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) 'Deddf Cynllunio 2008: Archwilio Ceisiadau ar gyfer Caniatâd Datblygu'[2] a Nodyn Cyngor 16 yr Arolygiaeth Gynllunio.

Amlinellir y Newidiadau arfaethedig yn fyr yn Atodiad A i'r llythyr hwn, ac mae disgrifiad manwl o bob newid a chyfiawnhad yr Ymgeisydd iddo i'w weld yn 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais i Newid' [AS-060] yr Ymgeisydd. Fodd bynnag, rhoddir crynodeb o'r newidiadau isod:

- Mae Newidiadau 1, 2, 3, 4, 6, 11 a 17 yn arwain at gynyddu maint terfynau'r Gorchymyn;
- Mae Newidiadau 8, 9, 10, 13 a 14 yn arwain at leihau terfynau'r Gorchymyn.
- Mae Newid 5 yn ceisio ymestyn yr oriau gwaith adeiladu i gynnwys gweithio ar fore dydd Sadwrn.
- Mae Newid 7 yn cynnig gwyriad troedffordd a llwybr beicio ychwanegol ar hyd Chester Road, gerllaw Cyfleuster Diwydiannol 2 Sisters wrth Waith Rhif 34, a chau troedffordd a llwybr beicio dros dro ar hyd Chester Road/ Brookside wrth Waith Rhif 44.
- Mae Newid 12 yn egluro'r fethodoleg adeiladu i ganiatáu i beiriannau symudol nad ydynt ar gyfer y ffordd groesi nodweddion ar wyneb croesfannau di-ffos.
- Mae Newid 15 yn ceisio caffael is-wyneb Lleiniau Rhif 18-04, 18-07 a 18-11 yn barhaol, yn hytrach na meddiannu tir dros dro mewn perthynas â'r lleiniau hynny.
- Mae Newid 16 yn ceisio gwyriad hawl dramwy gyhoeddus ychwanegol ger Stanlow wrth Waith Rhif 11.
- Byddai Newid 18 yn diweddaru categori caffael tir y Cynlluniau Tir o ran Lleiniau 9-04 a 16-03a i ymateb i geisiadau gan y tirfeddianwyr yr effeithir arnynt ac fe'i cytunwyd gyda nhw mewn egwyddor.

Ystyrir bod y dull a fabwysiadwyd gan yr Ymgeisydd yn gywir, gan fod yr ExA yn debygol o dybio bod y newidiadau arfaethedig yn berthnasol. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r newidiadau'n golygu bod angen tir ychwanegol, mae Newidiadau 1, 2, 3, 4, 6, 11 a 17 i gyd yn arwain at gynyddu maint terfynau'r Gorchymyn. O ran mwyafrif helaeth y Newidiadau, nid yw'r newid yn effeithio ar unrhyw fuddiannau perchnogaeth newydd, gan fod y tir yr effeithir arno o fewn yr un berchnogaeth. Yn wir, mae'r ExA yn nodi bod yr Ymgeisydd wedi amlygu y gwnaed llawer o'r Newidiadau i ymateb i sylwadau neu gais gan y tirfeddiannwr yr effeithir arno ac y cytunwyd arnynt mewn egwyddor. Fodd bynnag, mae'r ExA hefyd yn nodi bod rhai o'r Newidiadau arfaethedig yn effeithio ar fuddiannau perchnogaeth/ Lesddeiliad/ Lesddeiliaid newydd, sef yn fwyaf nodedig Newidiadau 1 a 17 (a hefyd Newid 3 o bosibl).

O ystyried yr uchod, mae'r ExA yn cytuno â'r Ymgeisydd ac mae o'r farn bod y Newidiadau arfaethedig yn berthnasol, gan eu bod yn cynnwys adleoli rhywfaint o waith arwyneb, a fyddai'n newid Terfynau'r Gorchymyn, gan arwain at newidiadau i'r tir sy'n destun caffael gorfodol. Mae'n amlwg hefyd i'r ExA bod caffael gorfodol hefyd yn cael ei geisio dros

[1] https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/advice-note-16/

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/418015/examinations_guidance-__final_for_publication.pdf

leiniau ychwanegol a fel y cyfryw, bydd Rheoliadau 5 i 19 (yn gynwysedig) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 (y Rheoliadau Caffael Gorfodol) yn cael eu sbarduno.

O ran asesu effeithiau arwyddocaol tebygol y Newidiadau arfaethedig, mae'r ExA yn nodi dogfen yr Ymgeisydd, sef 'Llythyr Eglurhaol i'r Cais i Newid' [CR-123], yn ogystal â'r *disgrifiad manwl o bob newid a'r cyfiawnhad iddo sydd wedi'i gynnwys yn ei ddogfen* 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais i Newid' [AS-060].

O ran y Datganiad Amgylcheddol (ES), mae'r ExA yn nodi Cais i Newid 1 Atodiad ES 2023 yr Ymgeisydd [CR-124] a gyflwynwyd er mwyn diweddaru canfyddiadau ES 2022 yr Ymgeisydd ([APP-051] i [APP-060], [APP-062] i [APP-097], [APP-099] i [APP-101], [APP-104] i [APP-106], [APP-108] i [APP-120], [APP-131] i [APP-221], ynghyd â [AS-025], [AS-029], [AS-031], [AS-035] i [AS-039], [AS-043] i [AS-052], [AS-057] ac [AS-059]). Hepgorwyd Newidiadau arfaethedig 7, 17 a 18 o'r asesiad o effeithiau arwyddocaol tebygol yng Nghais i Newid 1 Atodiad ES 2023, ond cynhwyswyd y Newidiadau arfaethedig a oedd yn weddill yn yr asesiad hwnnw. Nodir bod yr Ymgeisydd o'r farn bod effeithiau amgylcheddol y Newidiadau arfaethedig sy'n weddill wedi cael eu hasesu'n briodol, a bod unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol wedi cael eu hamlygu.

At ei gilydd, nid oedd Cais i Newid 1 Atodiad yr ES [CR-124] wedi amlygu unrhyw newid i gasgliadau a aseswyd yn yr ES. Felly, daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol newydd neu sylweddol wahanol ar yr amgylchedd. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi ystyried effaith y Newidiadau arfaethedig mewn perthynas â'r adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a daeth i'r casgliad na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i ganlyniadau wedi'i nodi yn adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y cais.

O ystyried yr uchod i gyd, mae'r ExA yn cytuno â'r Ymgeisydd nad yw'r un o'r newidiadau arfaethedig mor berthnasol fel y byddent yn gyfystyr â phrosiect sylweddol wahanol. Ni ystyrir bod y newidiadau arfaethedig, yn unigol nac ar y cyd, yn achosi i'r prosiect fod yn wahanol o ran natur neu sylwedd i'r hyn yr ymgeisiwyd amdano'n wreiddiol ym mis Hydref 2022. Fodd bynnag, o ystyried y bydd diwygio terfynau'r Gorchymyn yn gofyn am ymestyn tir y Gorchymyn o fewn cwmpas caffael gorfodol ac y byddai effaith ar berchnogaeth newydd, lesddeiliaid, buddiannau mewn tir, ac ati, mae'r Newidiadau'n mynd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei ystyried yn amherthnasol o ran ffeithiau ac amgylchiadau'r cais hwn. Er gwaethaf hyn, yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau Caffael Gorfodol, mae'r ExA o'r farn y gellir derbyn y Newidiadau arfaethedig i'r Archwiliad. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, mae'r ExA yn fodlon ei fod y dogfennau perthnasol a gyflwynwyd gyda'r Cais Newid yn cydymffurfio â gofynion Rheoliad 5 y Rheoliadau Caffael Gorfodol.

Mae'r ExA yn fodlon bod digon o amser yn yr Archwiliad i'r newidiadau arfaethedig gael eu hymgynghori ar ac archwilio'n briodol ac yn deg, gan gynnwys cyfle i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig ac unrhyw sylwadau llafar mewn unrhyw wrandawiadau sy'n ofynnol, ynghyd â gofynion gweithdrefnol y Rheoliadau Caffael Gorfodol.

Mae 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais Newid' yr Ymgeisydd yn nodi sut mae'n gweld y newidiadau arfaethedig effeithio ar Amserlen yr Archwiliad ac mae'n amlwg i'r ExA, os dilynir yr amserlen hon bod ddigon o amser yn parhau yn yr Archwiliad i alluogi ymgynghoriad i'w gynnal yn enwedig o ran y newidiadau CA ac i alluogi'r Ymgeisydd i

gyflwyno adroddiad ymgynghori wedi'i ddiweddaru. Oherwydd hynny mae'r ExA yn ystyried y byddai'r datblygiad arfaethedig, fel y newidiwyd, yn cydymffurfio ag Adrannau 42, 44 a 47 o Ddeddf Cynllunio 2008.

Mae 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais Newid' yr Ymgeisydd yn nodi sut mae'n gweld y newidiadau arfaethedig effeithio ar Amserlen yr Archwiliad ac mae'n amlwg i'r ExA, os dilynir yr amserlen hon bod ddigon o amser yn parhau yn yr Archwiliad i alluogi ymgynghoriad i'w gynnal yn enwedig o ran y newidiadau CA ac i alluogi'r Ymgeisydd i gyflwyno adroddiad ymgynghori wedi'i ddiweddaru.

Wrth dderbyn y newidiadau arfaethedig i'r Archwiliad, er gwaethaf na chafwyd cydsyniad yr holl rai sydd â buddiant yn y tir, mae'r ExA yn nodi mae'r Ymgeisydd wedi gyflwyno copïau llawn o'r dogfennau sy'n ofynnol gan Reoliad 5 y Rheoliadau Caffael Gorfodol. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn atgoffa'r Ymgeisydd o'i rwymedigaethau i rhoi gwybod i'r Unigolion yr Effeithir Arnynt yn unol â gofynion Rheoliadau 7, 8 a 9.

Mae'r ExA yn gofyn i hyn gael ei wneud yn unol â'r graddfeydd amser a gynhwysir yn llythyr 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais i Newid' [AS-060] yr Ymgeisydd a dderbyniwyd ar 23 Mawrth 2023, a bod yr hysbysiadau cyntaf o dan y Rheoliadau Caffael Gorfodol yn cyrraedd neu'n cael eu cyhoeddi erbyn **24 Ebrill 2023** fan bellaf.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno:

- Fersiynau cyfunol o benodau ac atodiadau perthnasol yr ES sy'n cynnwys y newidiadau a amlinellir yn nogfennau canlynol yr Ymgeisydd: Cais i Newid 1 Atodiad ES 2023 a Chais i Newid 1 Atodiad ES – Atodiad A Ychwanegiad Atodiadau Technegol (Diwygiad A) er mwyn hygyrchedd ac eglurder. Dylai'r fersiynau cyfunol gael eu cyflwyno ar ffurf fersiwn lân a fersiwn newidiadau wedi'u holrhain.
- Ar ffurf copi caled, 2 set liw o'r Cynlluniau Tir a'r Cynlluniau Gwaith, o'r maint a'r raddfa iawn. Sylwer y dylid darparu copïau caled a digidol o'r Cynlluniau hyn, mewn lliw ac o'r maint a'r raddfa iawn, bob tro y cânt eu diwygio.

**Y camau nesaf**

Mae'r Ymgeisydd bellach yn gyfrifol am roi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau arfaethedig sy'n cynnwys tir ychwanegol yn unol â'r Rheoliadau Caffael Gorfodol. Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd gynghori'r Tîm Achos am ei amserlen arfaethedig cyn gynted â phosibl, fel y gellir sicrhau bod ffurflen briodol ar gyfer gwneud Sylwadau Perthnasol ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau ychwanegol dros dir yn orfodol ar gael ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Ar ddiwedd y cyfnod Sylwadau Perthnasol, gallai Amserlen Archwiliad ddiwygiedig gael ei chyhoeddi, sy'n cynnwys terfyn(au) amser perthnasol ar gyfer cyflwyno Sylwadau Ysgrifenedig ac unrhyw wrandawiadau sy'n angenrheidiol.

Sylwer bod y Newidiadau arfaethedig yn cael eu derbyn ar y sail y gellir cwblhau'r holl brosesau yn yr amser sy'n ofynnol cyn diwedd yr Archwiliad ac yn unol ag unrhyw Amserlen Archwiliad ddiwygiedig a allai gael ei chyhoeddi, maes o law. Os na chyflawnir hyn, ni fyddwn mewn sefyllfa i ystyried y cais i newid yn ein hadroddiad argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol gan na fydd wedi cydymffurfio â'r gweithdrefnau statudol perthnasol.

Yn gywir

*Christopher Butler*

**Christopher Butler**
**Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

**Atodiad A – Crynodeb o bob Newid a gynigir yng Nghais i Newid yr Ymgeisydd**

**Newid 1:** Adleoli Gwaith Rhif 51, Gorsaf Falfiau Bloc Cornist Lane, 120 metr i'r de-ddwyrain (Cyfeirnod yr Ymgeisydd (AR) PS01).

**Newid 2:** Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 41 a 42 ac ychwanegu Llain Rhif 18-20a, i'r gogledd-orllewin a'r gorllewin, yn Fferm New Bridge, ac ychwanegu cael gwared â thanc slyri at y Gwaith (ARs PS02a a PS02b).

**Newid 3:** Adleoli Gwaith Rhif 45, Gosodiad Uwchben y Ddaear ('AGI') Llaneurgain, 75 metr i'r gorllewin (AR: PS03);

**Newid 4:** Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 23 ac ychwanegu Lleiniau Rhif 9-14a, 9-16a, 9-16b, 9-18a 9-18b a 9-19a, i'r gogledd i leihau'r effaith ar goed hynod ger Nant Backford (AR: PS04);

**Newid 5:** Ymestyn yr oriau gwaith adeiladu i gynnwys gweithio ar fore dydd Sadwrn (AR PS05);

**Newid 6:** Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 3 i alluogi mynediad at AGI Ince o'r briffordd fabwysiedig (AR PS06);

**Newid 7:** Gwyriad troedffordd a llwybr beicio ychwanegol ar hyd Chester Road, gerllaw Cyfleuster Diwydiannol 2 Sisters wrth Waith Rhif 34, a chau troedffordd a llwybr beicio dros dro ar hyd Chester Road/ Brookside wrth Waith Rhif 44 (AR PS07);

**Newid 8:** Lleihau Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 3 i ddileu rhan o gainc llinell reilffordd Hapsford (AR PS08);

**Newid 9:** Lleihau Terfynau'r Gorchymyn i ddileu dau eiddo preswyl a chwrtil amwynder wrth Waith Rhif 13 Grove Road (Mollington) a Gwaith Rhif 25 Halls Green Lane (i'r de o Stanlow) (AR PS11);

**Newid 10:** Lleihau Terfynau'r Gorchymyn i ddileu rhan o lan ddwyreiniol Afon Gowy wrth Waith Rhif 13A (AR PS12);

**Newid 11:** Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn i gynnwys trac mynediad preifat newydd wrth Waith Rhif 32A. Lleihau Terfynau'r Gorchymyn i ddileu trac mynediad o'r B5129 wrth Waith Rhif 33 (AR PS13);

**Newid 12:** Egluro'r fethodoleg adeiladu i ganiatáu i beiriannau symudol nad ydynt ar gyfer y ffordd groesi nodweddion ar wyneb croesfannau di-ffos (AR PS15);

**Newid 13:** Lleihau Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 31 i ddileu rhan o Hawl Dramwy Gyhoeddus (PRoW) ar hyd lan ddeheuol Afon Dyfrdwy (AR PS17);

**Newid 14:** Lleihau Terfynau'r Gorchymyn wrth Waith Rhif 18 i ddileu rhan o Gamlas Undeb Swydd Amwythig (AR PS18);

**Newid 15:** Diwygiad i'r fynedfa ar gyfer Cyfadeilad Adeiladu Shotton Lane wrth Waith Rhif 41A ger Ewloe i leihau'r effaith ar Frochfa Moch Daear (AR PS19);

**Newid 16:** Gwyriad PRoW ychwanegol ger Stanlow wrth Waith Rhif 11 (AR PS20).

**Newid 17:** Ymestyn Terfynau'r Gorchymyn i gynnwys mynedfa bresennol o Lwybr Ceffylau (Picton PR4) wrth Waith Rhif 16a (AR PS24);

**Newid 18:** Diwygiadau i Gynlluniau Tir yn dilyn newidiadau i Gyflwyniad Datblygiad Arfaethedig y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) (AR PS23).